

Adnewyddu'r Meini Prawf ar gyfer achredu addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Andrew Pickford

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Cyngor y Gweithlu Addysg

e-bost/rhif ffôn: Andrew.pickford@ewc.wales

Eich cyfeiriad: Cyngor y Gweithlu Addysg, 9fed Llawr, Eastgate House, 35-43 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0AB

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **5 Ionawr 2023** i:

Cangen Addysg Gychwynnol Athrawon
Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu ei llenwi'n electronig a'i hanfon at: ITEducationAddysgGA@llyw.cymru

Cwestiwn 1

- i) A ydych chi'n gweithio fel rhan o'r broses o gyflwyno Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) neu'n cefnogi'r broses honno? (os nad ydych, ewch i iv.)

Ydw	✓	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
------------	---	----------------	--------------------------

- ii) Os gwnaethoch chi ateb 'Ydw', ym mha fath o leoliad/sefydliad ydych chi'n gweithio?

Partneriaeth AGA – Sefydliad Addysg Uwch	<input type="checkbox"/>	Awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>
Partneriaeth AGA – ysgol gynradd	<input type="checkbox"/>	Consortium rhanbarthol	<input type="checkbox"/>
Partneriaeth AGA – ysgol uwchradd	<input type="checkbox"/>	Corff rheoleiddio (gan gynnwys arolygiaethau)	✓
Partneriaeth AGA – ysgol pob oed	<input type="checkbox"/>	Llywodraeth	<input type="checkbox"/>
Partneriaeth AGA – ysgol arbennig	<input type="checkbox"/>	Arall (rhowch fanylion)	<input type="checkbox"/>

- iii) Beth yw eich prif rôl chi?

Addysg athrawon/mentor athrawon dan hyfforddiant – mewn Sefydliad Addysg Uwch	<input type="checkbox"/>	Swyddog cymorth Sefydlu/ANG	<input type="checkbox"/>
Addysg athrawon/mentor athrawon dan hyfforddiant – mewn ysgol	<input type="checkbox"/>	Arolygydd	<input type="checkbox"/>
Arweinydd partneriaeth AGA – Sefydliad Addysg Uwch	<input type="checkbox"/>	Swyddog monitro achredu	✓
Arweinydd partneriaeth AGA – prif ysgol bartner	<input type="checkbox"/>	Arweinydd partneriaeth AGA – ysgol bartner	<input type="checkbox"/>
Arall (rhowch fanylion)	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>

- iv) Os nad ydych chi'n gweithio fel rhan o'r broses o ddarparu Addysg Gychwynnol Athrawon nac yn ei chefnogi, ym mha rinwedd yr hoffech chi roi adborth?

Rhiant/gofalwr	<input type="checkbox"/>	Cymdeithasau proffesiynol, gan gynnwys undebau'r gweithlu addysg	<input type="checkbox"/>
Plentyn neu berson ifanc (o dan 18 oed)	<input type="checkbox"/>	Y trydydd sector	<input type="checkbox"/>
Oedolyn (nad yw'n rhiant nac yn ofalwr)	<input type="checkbox"/>	Darparwr hyfforddiant	<input type="checkbox"/>

Athro dan hyfforddiant	<input type="checkbox"/>	Llywodraeth	<input type="checkbox"/>
Athro newydd gymhwyso	<input type="checkbox"/>	Myfyriwr/academydd	<input type="checkbox"/>
Athro ysgol (nad yw'n gweithio fel addysgwr athrawon ar hyn o bryd)	<input type="checkbox"/>	Pennaeth (nad yw'n ymwneud â phartneriaeth AGA yng Nghymru ar hyn o bryd)	<input type="checkbox"/>
Arall (rhowch fanylion)	<input type="checkbox"/>		

v) A ydych chi'n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------

Os 'ydw', rhowch fanylion.

Cyngor y Gweithlu Addysg, gan gynnwys adborth gan (a) y Cyngor llawn, a (b) y Bwrdd Cyngori ar Addysg Gychwynol Athrawon.

Cwestiwn 2 – A ydych chi wedi darllen y ddogfen drafft 'Ymgynghoriad ar y meini prawf ar gyfer achredu addysg gychwynol athrawon yng Nghymru'?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------

Os dewisoch 'Nac ydw', rydym yn argymhell eich bod yn darllen y ddogfen cyn parhau â'r ffurflen ymateb.

Cwestiwn 3 – A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i 'Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynol athrawon yng Nghymru' yn y ddogfen yn egluro'r Weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru a'r ffordd o feddwl deallusol sy'n ofynnol i gynllunio a chyflwyno rhaglenni AGA yn well?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Os oes gennych unrhyw sylwadau yn gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

Mae'r Cyngor yn croesawu fersiwn ddiwygiedig y weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn mynegi'r weledigaeth gyffredinol ei hun yn effeithiol, yn ogystal ag yn egluro'r egwyddorion y dylai partneriaethau AGA eu dilyn wrth ystyried eu gweledigaeth ar gyfer dysgu athrawon dan hyfforddiant. Rydym yn falch bod y weledigaeth yn amlinellu rhai o oblygiadau ymarferol a ddaw yn sgil hyn, gan osod y cyd-destun ar gyfer ysgolion a phrifysgolion sy'n gweithio gyda'i gilydd yn gydweithredol.

--

Cwestiwn 4 – A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i 'Adran B: strwythurau, prosesau, a mewnbynnau rhaglenni AGA' yn adlewyrchu'r diwygiadau addysgol yng Nghymru, yn gwneud y gofynion yn gliriach, ac yn datblygu'r gofynion ansawdd ar gyfer rhaglenni AGA yng Nghymru?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r diwygiadau a wnaed i Adran B y Meini Prawf. Rydym yn falch o nodi bod y newidiadau a wnaed i'r Meini Prawf yn adlewyrchu'r newid deddfwriaethol diweddar a'r cyfeiriad polisi, er enghraifft sicrhau ei bod yn ofynnol i bartneriaethau gysoni blaenoriaethau â Chynllun Recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon a chynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg.

Mae'r Cyngor yn croesawu'r newidiadau yn Adran B, lle y mae gofynion penodol wedi'u cryfhau ar gyfer partneriaethau, yn benodol y gofyniad bod strategaeth ymchwil wrth wraidd datblygu ymchwil mewn AGA yng Nghymru. At hynny, mae eglurhad (er enghraifft) o ran adran 4.2 Meini prawf ar gyfer cynnwys ysgolion yn y Bartneriaeth, yn sicrhau bod CGA a'r Bwrdd Cynghori ar AGA yn gallu cyflawni ein swyddogaethau achredu a monitro, wedi'i gefnogi gan eirfa glir a chadarn.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r newidiadau a wnaed i egluro cyfrifoldebau Ysgolion Partner Arweiniol fel elfen allweddol o'r weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru yn well. Bydd hyn yn cefnogi ymhellach yr agenda diwygio a gwaith y Bwrdd Cynghori ar AGA wrth achredu a monitro'r ddarpariaeth AGA. Mae'r Cyngor yn croesawu ychwanegu'r cyfeiriad penodol at raglen y 'blynyddoedd canol'. Disgwyliwn y bydd rhai partneriaethau'n croesawu hyn ac mae potensial iddo ychwanegu gwerth sylweddol at y proffesiwn o ran ehangder ac ansawdd recriwtio.

Cwestiwn 5 – A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i 'Adran C: Canlyniadau rhaglenni' yn adlewyrchu'r diwygiadau addysgol yng Nghymru, yn gwneud y gofynion yn gliriach, ac yn datblygu'r gofynion ansawdd ar gyfer AGA yng Nghymru?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

--

Mae'r Cyngor yn cytuno y bydd y newidiadau a amlinellir yn Adran C yn cryfhau'r gofynion ansawdd ymhellach ar gyfer cyflawni statws SAC, yn enwedig eu halinio â'r safonau sefydlu a'r berthynas rhwng y ddau. Mae'r Cyngor yn nodi pwysigrwydd Atodiad 3 o ran cymhwyso safonau, a pha mor bwysig yw hi bod partneriaethau'n cydweithio'n agos i fabwysiadu dulliau ymarferol, cymesur, synhwyrol a chyfannol ar gyfer monitro bod athrawon dan hyfforddiant yn cyflawni'r safonau ar gyfer SAC.

Cwestiwn 6 – A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i'r adrannau canlynol:

- 'Rhestr termau'
- 'Cyfeiriadau'
- 'Atodiad 2: Gofynion mynediad ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru'
- 'Atodiad 3: Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig – mwy o gyngor i bartneriaethau AGA wrth gynllunio rhaglenni'

yn cefnogi'r newidiadau a wnaed i brif gorff y ddogfen?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

Mae'r Cyngor yn arbennig o falch o nodi bod Atodiad 2 yn egluro ymhellach y gofynion mynediad sy'n gysylltiedig â rhaglenni AGA yng Nghymru. Yn nodedig, mae'r gofynion ychwanegol ar gyfer rhaglenni'r blynyddoedd canol yn glir i bob rhanddeiliad. Mae'r Cyngor yn croesawu'r adolygiad i'r gofynion mynediad am TGAU, a ddylai sicrhau mwy o gysondeb â darparwyr AGA sy'n cystadlu yng ngweddill y DU, cynyddu cyfleoedd cyfartal i fyfyrwyr Cymru sy'n dymuno astudio addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, a dileu rhwystr posibl i fyfyrwyr o gefndiroedd addysg rhyngwladol rhag cael lle ar raglenni AGA yng Nghymru.

Cwestiwn 7 – A ydych chi'n cytuno bod cynnwys 'Atodiad 4: Darpariaeth AGA arbenigol yn y cyfnod cynradd ar gyfer ADY' yn amlinellu'n glir nodau Llywodraeth Cymru i bennu a oes unrhyw newidiadau'n ofynnol yn fframwaith AGA Cymru er mwyn diwallu anghenion ein dysgwyr sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth a chefnogi eu dyheadau?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'ch ymateb, defnyddiwch y gofod hwn i ymhelaethu.

Mae'r Cyngor yn cytuno bod cynnwys Atodiad 4 yn ychwanegiad cadarnhaol i ddiwallu a chefnogi anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y dysgwyr mewn lleoliadau ADY naill ai mewn ysgolion prif ffrwd neu ysgolion arbennig. Mae'r gwahaniaeth rhwng lleoliadau ysgolion arbennig sydd eisoes yn cymryd rhan mewn rhaglenni prif ffrwd a pharmedrau penodol y rhaglen newydd yn ddefnyddiol. Bydd hyn yn sicrhau cynrychiolaeth barhaus ysgolion arbennig o fewn Addysg Gychwynol Athrawon yng Nghymru, gan roi mwy o gyfle i ymwneud yn fanylach â rhaglenni penodol i sicrhau bod anghenion y dysgwyr hynny'n cael eu diwallu. I'w nodi, bydd CGA yn mynd ati i ofyn bod y rhaglenni newydd hyn yn cael eu hachredu ar wahân i raglenni TAR Cynradd presennol.

Mae'r eglurder a ddarparwyd ynghylch y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon yn ddefnyddiol hefyd. Bydd hyn yn galluogi partneriaethau i wneud penderfyniadau effeithiol ar ddulliau achredu yn well, ar sail disgwyliadau tair blynedd y bydd Llywodraeth Cymru'n eu darparu i'r sector o 2022/23.

Gall fod cyfle i egluro ymhellach y gofyniad bod y rhaglenni hyn yn berthnasol i'r cwricwlwm cynradd. Hynny yw, ni fydd rhaglenni'n gallu cymhwyso'r cwricwlwm cynradd i ddysgwyr oed uwchradd sydd wedi cyrraedd oed uwchradd yn ddatblygiadol. Yn achos y dysgwyr hyn, dylai gofynion rhaglen a mynediad rhaglenni uwchradd neu'r blynyddoedd canol fod yn berthnasol o hyd.

Cwestiwn 8

Hoffem gael eich barn ar yr effaith y byddai'r Meini prawf diwygiedig yn ei chael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Mae'r Cyngor yn croesawu dileu amwysedd ynghylch opsiwn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r meini prawf yn glir erbyn hyn mai cyfrifoldeb unrhyw Bartneriaeth sy'n dymuno darparu AGA yng Nghymru yw sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan graidd o unrhyw raglen. Byddai hyn yn golygu nad oes unrhyw anghysondeb daearyddol yn y cyfle i bobl gael mynediad i'r proffesiwn a defnyddio'r Gymraeg. At hynny, dylai'r cyfeiriad a amlinellir yn adran 4.6 olygu bod partneriaethau'n barod yn strategol i ddatblygu'u darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy eu hail (ac ymlaen i'w trydydd) cylch achredu.

Gall fod cyfle pellach i wella datblygiad y Gymraeg ar gyfer y di-Gymraeg. Trwy weithgarwch monitro, mae'r Bwrdd Cynghori ar AGA wedi gweld bod rhai partneriaethau'n dehongli bod y gofyniad am '...datblygu sgiliau Cymraeg am 35 awr y flwyddyn fel rhan o'u rhaglen' yn cynnwys astudio dan gyfarwyddyd. Gellid cryfhau hyn

naill ai trwy gyswllt uniongyrchol neu well darpariaeth deunyddiau ar-lein a ddatblygwyd gan y bartneriaeth.

Mae'r anogaeth i bartneriaethau sicrhau bod 'Athrawon dan hyfforddiant Cymraeg eu hiaith (ni waeth a ydynt yn dilyn cwrs sy'n eu paratoi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio) yn ymgymryd ag o leiaf un lleoliad mewn ysgol cyfrwng Cymraeg' yn ddefnyddiol yn yr ystyr ei bod yn rhoi cyfle i athrawon dan hyfforddiant sydd â llai o hyder yn eu gallu i siarad Cymraeg ac y byddent fel arfer wedi gwneud eu holl leoliadau trwy gyfrwng y Saesneg, ddatblygu eu sgiliau Cymraeg mewn ysgol. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r cyfleoedd am gydweithredu rhwng Partneriaethau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg lle y mae nifer bach o fyfyrwyr. Ar hyn o bryd, mae'r Meini Prawf yn awgrymu y gallai'r trefniadau ar gyfer hyn '...fod yn rhithwir a chael eu trefnu ar y cyd ar draws mwy nag un bartneriaeth' – gallai fod yn fuddiol archwilio unrhyw drefniadau ar gyfer y mathau hyn o ddulliau arloesol yn fanylach.

Cwestiwn 9 – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut y credwch y gallai'r Meini Prawf arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Mae'r Cyngor o'r farn bod y Meini Prawf wedi'u hadnewyddu yn gosod gofynion priodol ar bartneriaethau i gyflawni effeithiau cadarnhaol i bobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg. Heblaw am y sylwadau hynny a amlinellwyd mewn ymateb i Gwestiwn 8, nid yw'r Cyngor yn rhagweld newidiadau eraill i'r Meini Prawf, y gellid eu gwneud yn rhesymol o fewn cyfyngiadau rhaglenni AGA, a fyddai'n cael effeithiau buddiol.

Cwestiwn 10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad aethom i'r afael yn benodol â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt:

Dim.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe byddai'n well gennych petai eich ymatebion yn aros yn ddiennw, ticiwch yma:

